# Cyhoeddi papurau cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer mis Mehefin 2022

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Newcastle, a'i gadeirio gan gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), yr Athro Susan Jebb. TBydd y cyfarfod yn dechrau am 9.00am ddydd Mercher 15 Mehefin ac mae croeso i'r cyhoedd fod yn bresennol. Gallwch gofrestru i wylio ar-lein.

Mae'r agenda'n cynnwys:

- Ymateb yr ASB i Darfu ar y Gadwyn Gyflenwi oherwydd y Gwrthdaro yn Wcráin: Amnewid Cynhwysion a Labelu
- Gorsensitifrwydd i Fwyd – diweddariad ar ffrydiau gwaith a'r camau nesaf a argymhellir
- Diffyg Diogeledd Bwyd mewn Cartrefi
- Y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl).

Mae'r agenda lawn a'r papurau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar ein gwefan.

## Sut i gofrestru ar gyfer cyfarfod agored y Bwrdd

Bydd cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2022 yn gyfarfod agored ac edrychwn ymlaen at groesawu aelodau'r bwrdd ac aelodau'r cyhoedd sy'n gallu bod yn bresennol, yn unol â chanllawiau Covid-19. Gallwch hefyd gofrestru i wylio'r cyfarfod yn fyw ar-lein.

Os oes angen help arnoch i gofrestru, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn: 01772 767731
- E-bost: fsaboardmeetings@glasgows.co.uk

## Cyflwyno cwestiwn

Gallwch gyflwyno cwestiynau i Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd hyd at hanner dydd, 14 Mehefin drwy anfon e-bost i board.sec@food.gov.uk.

Bydd unrhyw gwestiynau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau, gan gynnwys ar 15 Mehefin, yn cael eu hateb trwy ohebiaeth yn unig.

Mae rhagor o wybodaeth am gyflwyno cwestiynau ar gael ar dudalen we ein Bwrdd.

## COVID-19 a Chyfarfodydd Bwrdd yr ASB 2022

Rydym yn croesawu aelodau'r cyhoedd i fod yn bresennol unwaith eto yng nghyfarfod agored y Bwrdd a'r Pwyllgor Busnes  am yr ail dro ers i reolau Covid olygu bod yn rhaid ymuno â'r cyfarfodydd hyn yn rhithiol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ffrydio'r cyfarfod yn fyw i'r rhai na allant fod yn bresennol.

Mae manylion amserlen y cyfarfodydd ar gael ar dudalen we ein Bwrdd.